**Datganiad o Reswm**

**Cynllun Teithio Llesol Pencoed**

**Cyflwyno cyfyngiadau parcio arfaethedig 'Dim Aros, Llwytho a Dadlwytho Ar Unrhyw Adeg', cyfyngiadau parcio 'Dim aros ar unrhyw adeg', a chroesfan sebra wedi'i chodi a reolir ym Mhencoed.**

Fel rhan o Gynllun Teithio Llesol ym Mhencoed, ystyrir bod cyflwyno cyfyngiadau parcio newydd yn angenrheidiol ar sail diogelwch ar y ffyrdd i gefnogi gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol.

Bydd y cynllun arfaethedig yn cyflwyno'r cyfyngiadau parcio canlynol:-

- 'Dim aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg' ar Glossop Terrace, Heol yr Onnen, Heol Llangrallo, Heol Felindre a'r A473.
- 'Dim aros ar unrhyw adeg' ar St Johns Drive, Heol Llangrallo a Heol Felindre.

Yn ogystal, cynigir cyflwyno croesfan sebra wedi'i chodi a reolir ar Heol Felindre fel rhan o'r Cynllun Teithio Llesol. Ystyrir bod cyflwyno croesfan sebra a reolir yn angenrheidiol i hwyluso'r Cynllun Teithio Llesol ar sail diogelwch ar y ffyrdd.

Dangosir y cynnig ar Luniad SL.02.24

Ystyrir ei bod yn briodol gwneud y Gorchymyn a fydd yn cyflwyno'r cyfyngiadau parcio newydd am y rhesymau a nodir yn Adrannau 1 (a), (c), (e) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bobl neu drafnidiaeth arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall neu i atal y tebygolrwydd o unrhyw berygl o'r fath yn digwydd;

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr);

(e) cadw nodweddion y ffordd mewn achos lle mae'n arbennig o addas i'w defnyddio gan bobl yn marchogaeth ceffylau neu ar droed;

(f) cynnal neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn i gyflwyno'r cyfyngiadau parcio, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn adran 122 (2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra’r rhai sy’n defnyddio neu’n dymuno defnyddio cerbydau o’r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy’n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd adran 122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno’r cyfyngiadau parcio.

Mae’r cynllun yn cael ei ariannu gan yr adran Rheoli Traffig.